



Newidiadau yn y ffordd rydym yn ymateb i ac yn cofnodi digwyddiadau gweithredol

Cyflwyniad – Beth yw digwyddiad?

Yn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), rydym yn diffinio digwyddiad posibl neu wirioneddol fel a ganlyn:

'Digwyddiad penodol, y dygir i'n sylw ac sydd o fewn ein meysydd cyfrifoldeb. Gallai gael effaith amgylcheddol a/neu weithredol a gallai fynnu ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru.'

Mae materion sy'n codi na fyddem o bosibl yn cyfeirio atynt fel digwyddiadau yn cynnwys digwyddiadau y dygir i'n sylw:

- nad ydynt o fewn ein cyfrifoldebau statudol,
- a/neu nad oes ganddynt effaith amgylcheddol,
- a/neu nad oes ganddynt effaith ar ein gwaith a'n henw da ein hunain.

Beth sy'n digwydd i'n hymateb i ddigwyddiadau?

Mae rheoli digwyddiadau yn bwysig i ni ac mae ein [Cynllun Galluogi Rheoli Digwyddiadau](#) wedi ein helpu i gyflenwi polisi categoreiddio digwyddiadau integredig, fel rhan o'n dull cyffredinol o reoli adnoddau naturiol ac atal niwed amgylcheddol.

Pan sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru, gwnaethom nodi bod angen i ddangos yn syml sut rydym yn categoreiddio digwyddiadau ac roedd hyn yn un o'r blaenoriaethau yn ein Hadolygiad Maes Busnes Rheoli Digwyddiadau diweddar. Gwnaeth staff arbenigol ar hyd y busnes gymryd rhan mewn gweithdai â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a gwnaethant gefnogi'r gwaith o ddatblygu dogfen Canllawiau Categoreiddio Digwyddiadau newydd wedi'i symleiddio.

Byddwn yn parhau i ymateb i ddigwyddiadau posibl a gwirioneddol trwy ddilyn dull sy'n seiliedig ar risg. Byddwn yn blaenoriaethu ein gwaith i sicrhau ein bod ni'n diogelu'r budd uchaf ar gyfer amgylchedd, pobl ac economi Cymru. Bydd hyn yn cyflenwi ateb effeithiol a chyson i bosibilrwydd a goblygiadau digwyddiadau amgylcheddol, megis digwyddiadau llygredd, llifogydd, ac achosion o glefydau'n torri allan.

Ein hysgogwyr allweddol oedd datblygu:

- Dull newydd, integredig wedi'i symleiddio o ddiffinio a chategoreiddio digwyddiadau (a rhai nad ydynt yn ddigwyddiadau). Bydd hyn yn llywio'r modd rydym yn canolbwyntio ar ac yn blaenoriaethu ein hadnoddau, yn ein rôl rheoli digwyddiadau a'n gwaith o ddydd i ddydd.
- Dull newydd, effeithiol a chyson tuag at y ffordd rydym yn ymateb i bob math o ddigwyddiadau a'r lefelau gwasanaeth cysylltiedig gofynnol i gyflawni hyn.
- Dull newydd, effeithiol a chyson tuag at y ffordd mae ein swyddi'n mynd i'r afael â'r effeithiau amgylcheddol hynny nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddigwyddiad.
- Fframwaith hyfforddi sy'n seiliedig ar gymwyseddau i alluogi ein hymatebwyr digwyddiadau i gyflawni eu dyletswyddau â hyder ac i safon uchel.

Sut y gwnaethom ymateb yn y gorffennol

Ynghynt, roedd y swyddogion digwyddiadau yn defnyddio'r Cynllun Dosbarthu Digwyddiadau Cyffredin, a wnaeth rannu ein hadnoddau digwyddiadau'n ddwy ran: y cyntaf ar gyfer caffael adnoddau, a'r ail ar gyfer yr effaith amgylcheddol. Gwnaethom gydnabod nad oedd digon o integreiddio â'n cylch gwaith ehangach, ac roedd ychydig o gyfeiriadau at y ffordd rydym yn ymateb i ac yn nodi ein blaenoriaethau.

Sut yr ydym yn bwriadu ymateb yn y dyfodol

Mae ein Canllawiau Categoriiddio Digwyddiadau newydd yn codi ein harchwaeth a throthwyon risg, ond yn nodi'r mathau o ddigwyddiadau y dylem ymateb iddynt fel CNC.

Y meini prawf pennaf, cyffredinol sy'n cael eu hystyried pan ydym yn asesu unrhyw ddigwyddiad yw:

- Risg i iechyd cyhoeddus, gan gynnwys effeithiau i ansawdd aer, arogleuon, sŵn, ymbelydredd ac effaith ar amwynderau;
- Risg cysylltiedig ag un o'n hasedau, y tir neu gyrff dŵr rydym yn eu rheoli;
- Effaith ddifrifol ar adnoddau naturiol Cymru (gan gynnwys effeithiau ar yr aer, tir, dŵr, pysgodfeydd a bioamrywiaeth) a'r effaith ar gadwraeth a'r economi;
- Llifogydd posibl neu wirioneddol eiddo neu isadeiledd;
- Ein hymglymiad ag ymateb i ddigwyddiadau amlasiantaethol; a
- Diddordeb y cyfryngau a/neu risg i'n henw da.

Byddwn yn asesu digwyddiad naill ai fel:

- **Digwyddiad Effaith Lefel Uchel:** digwyddiad y mae ei effaith yn mynnu ymateb ar unwaith ar sail 24 awr, er mwyn lliniaru effaith y digwyddiad; neu

- **Digwyddiad Effaith Lefel Isel:** digwyddiad nad yw ei effaith yn mynnu ymateb ar unwaith o fewn oriau gwaith arferol, neu os cawn ein hysbysu y tu allan i oriau'r swyddfa, gall yr ymateb aros tan oriau arferol y swyddfa a chael ei drin fel gwaith gweithredol arferol ('swydd bob dydd', h.y. busnes fel arfer ac o fewn oriau swyddfa arferol) neu gasglu data amgylcheddol.

O fewn atodiad y Canllawiau Categoriiddio Digwyddiadau, sy'n manylu'r sectorau digwyddiadau, rydym wedi cynnwys disgrifyddion cyfreithiol cysylltiedig â'n canllawiau dedfrydu amgylcheddol a dyletswyddau statudol i asesu'r effaith derfynol ar yr amgylchedd.

Dau dabl yn dangos gwahaniaethau terminoleg			
Disgrifiad cyn mis Ebrill 2017	Disgrifiad ar ôl mis Ebrill 2017	Diffiniadau cyfreithiol ar gyfer categoriiddio effaith derfynol	Disgrifiad Allanol
1	Digwyddiadau Lefel Uchel	Pennaf, Parhaus, Helaeth, Sylweddol	Pennaf
2			Sylweddol
3	Digwyddiadau Lefel Isel	Dibwys	Dibwys
4	Digwyddiad	-	Dim effaith amgylcheddol/Gwaith gweithredol arferol
-	Di-sail	-	Dim tystiolaeth bod digwyddiad wedi digwydd
-	Nid yw o ddiddordeb	-	Rhywbeth nad oes gennym ddiddordeb ynddo

Ein rôl a chyfrifoldebau

Mae ein rôl rheoli digwyddiadau wedi'i thanategu gan arlwy o ddyletswyddau a phwerau statudol gan gynnwys Deddf Iechyd Planhigion 1967, Deddf Coedwigaeth 1967, Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010, Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, a Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, ymhlith eraill.

Rydym ni yn Ymatebwr Categori 1 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, sy'n rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol pwysig i ni i ymateb yn uniongyrchol i ddigwyddiadau ac i gefnogi rolau rheoli digwyddiadau sefydliadau eraill, megis y gwasanaethau brys, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth.

Ar brydiau, mae'n bosibl mai ni bydd yr ymatebwr arweiniol, ond fel arfer yr heddlu neu'r Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n arwain y gwaith o gydlynu'r ymateb cyffredinol i ddigwyddiad mawr pan all y digwyddiad o bosibl gael effaith ar ddiogelwch y cyhoedd. Fel arfer, yr awdurdodau lleol sy'n arwain y cam adfer. Ein rôl ni yw arwain ymateb amddiffynnol amgylcheddol trwy drydydd partïon, gyda chamau gorfodi dilynol, fel y bo'n

briodol. Mae ein Canllawiau Categoriiddio Digwyddiadau yn rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol o'n rôl, er y gallem weithio o bell mewn perthynas â'r digwyddiad, i ddylanwadu ar yr ymateb amddiffynnol a chamau dilynol.

Ariennir ein gwasanaeth gan Lywodraeth Cymru ac rydym wedi cymryd camau i asesu'r anghenion i sicrhau ein bod yn cyflenwi gwasanaeth effeithlon, effeithiol â phwyslais penodol a gwerth am arian. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn gwneud defnydd effeithlon o'n hadnoddau ac rydym wedi mireinio ein diffiniad ymateb i gydnabod y gwaith rydym yn ei wneud yn y dirgel yn ogystal ag ar lawr gwlad.

- Fel **rheoleiddwr ac ymgynghorydd**, rydym yn gweithio i leihau amllder ac effaith digwyddiadau.
- Fel **ymgyngorydd**, rydym yn darparu cyngor a data technegol arbenigol ar ystod eang o bynciau i alluogi ein partneriaid proffesiynol i wneud penderfyniadau gwybodus sy'n eu cynorthwyo yn y modd maent yn ymgymryd â'u rolau rheoli digwyddiadau ac yn dechrau'r gwaith adfer yn gynnar i leihau effeithiau amgylcheddol.
- Fel **gweithredwr**, rydym yn lleihau'r tebygrwydd o ddigwyddiadau'n digwydd ar y tir rydym yn ei reoli, ac yn cynnal ein hasedau rheoli digwyddiadau penodol, megis amddiffynfeydd llifogydd. Ar bob amser, byddwn yn ymdrin ag unrhyw ddigwyddiad yn ei gyfarwydd, gan ystyried ei oblygiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol, gan gynnwys y mesurau a ddefnyddir i'w reoli.

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â: incidentpolicy@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Jeremy Parr
Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Gweithrediadol
Head of Flood and Incident Risk Management

Cyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Evidence, Policy and Permitting Directorate